Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 16.07.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br><br>Yn gyffredinol, mae'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn cynnig trosolwg addas ac eang o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn hyrwyddo continwwm dysgu ac, yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu a phrofiad, yn cynnig sail resymegol glir a fydd yn cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i gynllunio a datblygu eu cwricwlwm.<br><br>At ei gilydd, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cwmpasu'r ehangder a'r dyfnder sydd eu hangen i gynorthwyo dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed i wneud cynnydd ystyrlon. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, yn enwedig mewn Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, gallai'r datganiadau diwygiedig gael effaith negyddol ar ehangder a dyfnder y cwricwlwm. Mae'r prif faterion a godwn yn ymwneud â'r canlynol:<br>• diffyg eglurder mewn ychydig o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig<br>• y defnydd o'r derminoleg 'dwyieithog', 'amlieithog' a 'lluosieithog'<br>• yr effaith y gallai newidiadau ei chael ar ddatblygu medrau Cymraeg<br>• dileu'r termau 'siarad' ac 'ysgrifennu' |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Math o ymatebwr (dewiswch un o'r canlynol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plentyn neu unigolyn ifanc | ☐ | Cyflogwr/cynrychiolydd busnes | ☐ |
| Rhiant/gofalwr | ☐ | Corff proffesiynol/grŵp â buddiant | ☐ |
| Llywodraethwr ysgol neu aelod o bwyllgor rheoli ysgol | ☐ | Sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, gwirfoddolwr, grŵp hunangymorth, menter gymdeithasol neu fenter gydweithredol, sefydliad crefyddol, nid-er-elw) | ☐ |
| Ymarferydd ysgol brif ffrwd (pennaeth, athro, cynorthwyydd addysgu ac ati) | ☐ | Consortiwm rhanbarthol | ☐ |
| Darparwr addysg heblaw yn yr ysgol (staff UCD, staff ysgol annibynnol, darparwr arall ac ati) | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Addysg uwch (gan gynnwys prifysgolion / sefydliadau academaidd) | ☐ | Addysg bellach | ☐ |
| Gwleidydd (Aelod o'r Senedd, cynghorydd sir, AS ac ati) | ☐ | Grŵp ymatebwyr arall nad yw wedi'i restru uchod, rhowch fanylion: | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lobïwr | ☐ | Mae'n well gennyf beidio â dweud | ☐ |

A ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran ysgol, lleoliad neu sefydliad?

| | |
|---|---|
| ☐ | Fel unigolyn |
| ✓ | Ar ran ysgol/lleoliad/sefydliad |

**Cwestiwn 1** - Er mwyn ymateb i adborth ar ganllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru yn 2019, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cael eu gwneud yn orfodol drwy ddatblygu'r Cod hwn. A yw'r 27 datganiad sydd wedi'u mireinio drwy'r Cod drafft hwn yn crynhoi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc ar hyd y continwwm i'r rhai 3 i 16 oed?

| **Ydynt** | ☐ | **Nac ydynt** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Yn gyffredinol, mae'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn cynnig trosolwg addas ac eang o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn hyrwyddo continwwm dysgu ac, yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu a phrofiad, yn cynnig sail resymegol glir a fydd yn cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i gynllunio a datblygu eu cwricwlwm.<br><br>At ei gilydd, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cwmpasu'r ehangder a'r dyfnder sydd eu hangen i gynorthwyo dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed i wneud cynnydd ystyrlon. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, yn enwedig mewn Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, gallai'r datganiadau diwygiedig gael effaith negyddol ar ehangder a dyfnder y cwricwlwm. |

**Cwestiwn 2** – Daw'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn strwythurau allweddol ar gyfer trefnu'r cwricwlwm i bob maes dysgu a phrofiad. A yw'r datganiadau diwygiedig yn glir ac yn hygyrch, ac yn darparu dealltwriaeth o'r ehangder ar gyfer datblygu'r cwricwlwm?

| **Ydynt** | ☐ | **Nac ydynt** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae gan y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Mathemateg a Rhifedd, y Celfyddydau Mynegiannol, y Dyniaethau, ac Iechyd a lles sail resymegol glir a ddylai |

gynorthwyo ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm i wella gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn alinio'n dda ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn croesawu'r ffocws ychwanegol ar ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o dreftadaeth ddiwylliannol eang Cymru.

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn gyffredinol glir ac addas. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y chwe datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes hwn yn cwmpasu ystod eang o wybodaeth, medrau a dealltwriaeth. Er bod y datganiadau a gyflwynwyd yn crynhoi hanfodion yr egwyddorion sylfaenol, mewn ychydig o achosion, mae brawddegau'n aneglur o bryd i'w gilydd, er enghraifft:

- Wrth gael eu hannog i ddefnyddio rhesymeg, tystiolaeth a chreadigrwydd, caiff dysgwyr eu cefnogi i ymchwilio i wybodaeth wyddonol, a'i chymhwyso, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio.
- Mae sut mae mater yn ymddwyn yn pennu priodweddau defnyddiau ac yn ein galluogi i ddefnyddio adnoddau naturiol, yn ogystal â chreu sylweddau newydd.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol ystyried sut y gellid diweddaru'r datganiadau hyn i roi mwy o eglurder i ysgolion.

Mae'n bwysig nodi bod gennym bryderon cryf ynghylch y newidiadau i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Mae'r newidiadau a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori wedi arwain at golli eglurder pwysig i ysgolion ac ymarferwyr. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw'r datganiadau'n cyfeirio at siarad nac ysgrifennu mwyach. Er bod y disgrifiadau o ddysgu'n cynnwys cyfeiriadau at siarad ac ysgrifennu, mae eu hepgor o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, a cholli eglurder o ran dulliau cyfathrebu, yn creu datgysylltiad sy'n ei gwneud yn anoddach dehongli ystyr y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellid diweddaru'r datganiadau i leihau unrhyw amwysedd er mwyn sicrhau y gall pob ymarferydd eu deall a'u defnyddio i greu eu cwricwlwm.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau sy'n benodol i ddatganiadau unigol o'r hyn sy'n bwysig:

***Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd***

Mae'r newidiadau awgrymedig i'r datganiad hwn yn ei wneud yn anodd ei ddeall a'i ddehongli, a gallai achosi dryswch i ymarferwyr wrth iddynt ei ddefnyddio i lywio'u gwaith yn datblygu'r cwricwlwm. Mae'r defnydd o derminoleg orgymhleth sy'n benodol i'r ddisgyblaeth mewn un frawddeg, er enghraifft, 'Mae'r Maes hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod dysgwyr, fel dinasyddion Cymru ddwyieithog mewn byd amlieithog, yn gallu defnyddio ieithoedd mewn cyd-destun lluosieithog' yn ei gwneud yn arbennig o anodd i'w deall a'i defnyddio yn y broses dylunio cwricwlwm. Gallai fod â'r canlyniad anfwriadol o annog athrawon Cymraeg a Saesneg i ganolbwyntio gormod ar ddatblygu gallu dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng ieithoedd, fel nad ydynt yn datblygu eu medrau Cymraeg neu Saesneg yn ddigon da.

***Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu***

Cytunwn fod medrau gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu wedi'u hadlewyrchu'n glir yn y disgrifiadau dysgu ar gyfer Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn adlewyrchu'r medrau siarad ac ysgrifennu'n ddigonol. Prif ffocws y datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig yw medrau iaith

mynegiannol (neu gynhyrchiol). Byddai'n fwy defnyddiol cynnwys y gair 'ystumiau' a/neu 'arwyddion' ochr yn ochr â 'llafar ac ysgrifenedig' i fod yn fwy cynhwysol i ddysgwyr, yn hytrach na dileu'r cyfeiriad at 'iaith lafar ac ysgrifenedig'. Er enghraifft, 'Mae cyfathrebu clir ac effeithiol trwy iaith lafar ac ysgrifenedig, ystumiau neu arwyddion, yn un o sgiliau pwysig bywyd'. Byddai hyn yn sicrhau y caiff medrau iaith gynhyrchiol siarad, ysgrifennu ac iaith arwyddion neu ystumiau, eu mynegi'n glir yn y disgrifiad. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig yn ei wneud yn anoddach ei ddeall, a gallai gyfyngu ar allu ymarferwyr i gynllunio cwricwlwm cydlynol ac effeithiol.

**Cwestiwn 3** – Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi'u mireinio ar ôl ystyried materion yn rhan o basio deddfwriaeth gysylltiedig drwy'r Senedd yn 2020/21.

**3a –** A yw'r diwygiadau i'r datganiadau yn ymwneud â hanes ac amrywiaeth Cymru yn ddigon clir?

Rydym yn croesawu'r cyfeiriadau cynyddol at addysgu hanes ac amrywiaeth Cymru, a'r ffocws clir ar addysg hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol, mae'r ffocws cynyddol ar draddodiadau a hanes unigryw Cymru, a'i diwylliannau amrywiol, yn gadarnhaol. Fodd bynnag, efallai y byddai'n ddefnyddiol egluro'r cysylltiad rhwng yr agwedd hon a'r astudiaeth o Gymru yn y byd ehangach.

Ym maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau, mae'r datganiadau sy'n ymwneud â stori Cymru yn glir, gyda phwyslais ar yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Efallai y byddai'n ddefnyddiol egluro ystyr ychydig o dermau, fel 'lluosieithog', er mwyn i ymarferwyr allu deall yr ystyr yn llawn yn y cyd-destun hwn. Gellid diweddaru'r datganiad 'Mae'r straeon hyn yn amrywiol, yn cwmpasu gwahanol gymunedau, yn ogystal â straeon pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn enwedig' i'w gwneud yn glir ei fod yn cyfeirio at stori'r ardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Efallai y byddai'n ddefnyddiol aileirio'r datganiad hwn fel a ganlyn, 'Mae'r straeon lleol, Cymreig a byd-eang hyn yn amrywiol, yn cwmpasu gwahanol gymunedau, yn ogystal â straeon Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn benodol'.

Wrth ysgrifennu am Bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, mae'r arweiniad ar gyfer defnyddio priflythrennau yn nodi (nodiadau arddull llywodraeth y DU) y dylid defnyddio priflythrennau ar gyfer pob grŵp Ethnig. Efallai y byddai'n ddefnyddiol dilyn y dull hwn yn holl ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.

Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid gwneud cyfeiriad cryfach at amrywiaeth ym maes dysgu a phrofiad iechyd a lles.

Rydym yn croesawu'r ffocws cynyddol ar amrywiaeth yn y Cod hwn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pwysleisio ystyr amrywiaeth yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Er bod cyfeirio'n benodol at hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ddefnyddiol, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn deall yr angen i addysgu'r ystod lawn o ddiwylliannau amrywiol, gan gynnwys diwylliant pobl LHDTC+.

**3b –** A yw'r newidiadau i'r datganiadau yn ymwneud â'r argyfwng hinsawdd yn ddigon clir?

Mae'r newidiadau i'r datganiadau'n glir wrth gyfeirio at newid yn yr hinsawdd. Yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mae'r cyfeiriadau'n addas. Fodd bynnag, gellid cryfhau hyn i bwysleisio'r effaith a gawn ar y byd naturiol. Er enghraifft, drwy ychwanegu'r geiriau mewn llythrennau italig isod:

'Mae datblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llwyddiant organebau yn caniatáu i ni wneud penderfyniadau gwybodus ***am sut rydym yn effeithio ar y byd naturiol***, gan gynnwys chwilio am ffyrdd o atal a thrin clefydau.'

**3c –** A yw'r newidiadau i'r datganiadau'n ddigon clir i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r ystod lawn o ieithoedd y gallai dysgwyr ddod ar eu traws?

Ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu a phrofiad, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r ystod lawn o ieithoedd. Fodd bynnag, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn peri ychydig o bryderon.

Erbyn hyn, mae'r newidiadau i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cyfeirio at ddatblygiad iaith 'dwyieithog', 'amlieithog' a 'lluosieithog'. Er bod hyn yn nodi ehangder yr ieithoedd y mae angen i ddysgwyr eu dysgu o hyd, mae'r derminoleg hon yn gwneud y datganiad hwn yn llai eglur i ysgolion ac ymarferwyr. Roedd y datganiadau gwreiddiol yn nodi'n benodol y byddai dysgwyr yn datblygu eu *'gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol'*. Roedd hyn yn rhoi statws clir a chyfartal i bob iaith. Mae'r datganiad diweddaredig yn agored i'w ddehongli, a gallai olygu nad yw ymarferwyr yn rhoi ffocws digon cryf ar ddatblygu Cymraeg a Saesneg dysgwyr.

**Cwestiwn 4** – Hoffem wybod eich barn chi am yr effeithiau y byddai'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n credu a allai fod? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

### Sylwadau ategol

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd dysgu a phrofiad yn cynorthwyo ysgolion ac ymarferwyr yn briodol i ddatblygu eu cwricwlwm yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae diffygion pwysig yn y newidiadau i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a allai gael effaith negyddol ar ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr.

Ers diweddaru'r datganiadau, nid oes unrhyw gyfeiriad uniongyrchol mwyach at y Gymraeg na'r defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad, gellir dehongli ystyr 'dwyieithog' fel

Saesneg/Ffrangeg, a gallai hyn gyfyngu ar gyfleoedd ymarferwyr i gynllunio i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion.

Mae'r datganiadau gwreiddiol yn datgan yn glir '*gyda'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol'*. Mae hyn yn egluro pwysigrwydd datblygu pob iaith. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r datganiad gwreiddiol hwn.

Collir ychydig o gyfleoedd i gryfhau'r ffocws ar ddysgwyr yn datblygu eu gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Er enghraifft, yn wreiddiol, roedd y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn disgwyl i ddysgwyr gael profiad o gyfleoedd i fynegi eu hunain ar gyfer 'cynulleidfaoedd gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal ag ieithoedd rhyngwladol'. Fodd bynnag, nid yw hyn yn glir yn y datganiadau newydd a diweddaredig. Gallai hyn gael effaith negyddol ar weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae defnyddio termau fel 'dwyieithog', 'amlieithog' a 'lluosieithog' mewn perygl o wanhau yn hytrach na chryfhau'r driniaeth o'r Gymraeg. Gellid lliniaru'r effeithiau hyn drwy ddefnyddio'r datganiadau gwreiddiol, sef Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol.

**Cwestiwn 5** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig arfaethedig i gael:

i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Cod yn ei gwneud yn glir y dylid cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg, beth bynnag fo cyd-destun yr ysgol, ym mhob maes dysgu a phrofiad. Mae'r ffocws ar ddysgwyr yn mynegi eu hunain yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol yn bwysig o ran tywys arweinwyr i gynllunio'n strategol ac, yn benodol, codi proffil y Gymraeg.

Wrth ystyried y maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, byddem yn awgrymu defnyddio'r datganiadau gwreiddiol o'r hyn sy'n bwysig. Roedd y rhain yn datgan yn glir '*gyda'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol'* ac yn dangos pwysigrwydd pob iaith.

**Cwestiwn 6** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y bwlch hwn i roi gwybod amdanynt.

Rydym wedi mynegi ein pryderon ynghylch y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, a hoffem achub ar y cyfle hwn i roi gwybodaeth ychwanegol am y maes hwn.

Teimlwn y gellir mireinio'r datganiadau hyn ymhellach drwy'r broses ymgynghori hon i wella eu heglurder i ymarferwyr.

**Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd**

Mae'r maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn nodi bod 'trawsieithu' yn fedr allweddol neu'n arfer addysgegol wrth ddefnyddio iaith mewn cyd-destun lluosieithog i greu cysylltiadau rhwng ieithoedd. Mae'n ymddangos yn y disgrifiadau o ddysgu (Llywodraeth Cymru, 2020, tud.133) ac yn yr adran ar ystyriaethau addysgegol (Llywodraeth Cymru, 2020, tud.160). Ar hyn o bryd, ni chyfeirir at drawsieithu, naill ai'n uniongyrchol trwy ddefnyddio'r term, nac yn anuniongyrchol trwy ddisgrifiad, yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd'. Yn yr eirfa yn y canllawiau ar y Cwricwlwm i Gymru, cyfeirir at 'drawsieithu' fel 'arfer addysgegol' (Llywodraeth Cymru, 2020, tud.250), ond mae hefyd wedi ei gynnwys fel 'medr' yn y disgrifiadau o ddysgu. Byddai'n fuddiol rhoi eglurhad i ymarferwyr am y defnydd o'r term hwn.

Gan gyfeirio at yr un datganiad, nid yw'n glir sut y 'darperir' medr 'creadigrwydd' i ddysgwyr trwy ddatblygu dealltwriaeth o darddiadau, esblygiad a nodweddion amrywiaeth o ieithoedd. Byddai enghreifftiau byr yn ddefnyddiol.

Yn ychwanegol, byddai'n fuddiol rhoi'r frawddeg sy'n dechrau â'r geiriau 'Profiadau dysgu ystyrlon' yn ei chyd-destun trwy gynnwys y gair 'iaith', fel ei bod yn dweud 'Profiadau ystyrlon wrth ddysgu ieithoedd'.

**Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch**

Yn y frawddeg 'Maen nhw'n ein galluogi i ddehongli'r hyn a glywn, a ddarllenwn ac a welwn, a thrwy hyn ddatblygu ein dealltwriaeth, ein hempathi a'n gallu i ymateb a chyfryngu'n effeithiol', efallai nad yw defnyddio termau fel, 'a thrwy hyn ddatblygu', yn fuddiol i ymarferwyr. Ar hyn o bryd, nid oes eglurder a hygyrchedd yn yr agwedd hon, sydd eu hangen i gynorthwyo ymarferwyr i gynllunio a chyflwyno eu cwricwlwm. Gallai fod yn fuddiol diweddaru'r rhan hon o'r datganiad i'w gwneud yn fwy hygyrch.

Mae'n bwysig sicrhau nad yw medrau derbyn a mynegi yn cael eu haddysgu ar wahân. Nid yw'n glir ai'r bwriad yw creu cyswllt rhwng y medrau derbyn, sef ffocws y datganiad o'r hyn sy'n bwysig, a'r medrau mynegi, sef ffocws y datganiad nesaf o'r hyn sy'n bwysig. Er bod y cyflwyniad i'r maes dysgu a phrofiad hwn yn nodi y dylid archwilio medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu mewn perthynas â'i gilydd (Llywodraeth Cymru, 2020, tud.126), byddai'n fuddiol ailbwysleisio hyn fel egwyddor, fel bod y datganiad yn glir.

**Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu**

Nid yw'r datganiad 'Yn y Maes hwn, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio iaith er mwyn iddyn nhw fod yn effeithiol wrth ryngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthynas ag eraill' yn egluro disgwyliadau yn ddigonol. Byddai'n fuddiol ei gwneud yn gliriach yn y disgwyliad i ysgolion ddarparu cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu a defnyddio iaith yn effeithiol. Heb yr eglurder hwn, mae pryder y gallai ymarferwyr gyflwyno cyfleoedd artiffisial y maent yn dirnad y byddant yn bodloni'r gofynion.

Er bod brawddeg olaf y datganiad hwn yn cyfleu ei bod yn bwysig i ddysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o ieithoedd, mae hefyd yn bwysig adlewyrchu bod angen i ddysgwyr wybod sut i ddefnyddio ac addasu iaith yn briodol ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd yng nghyd-destun iaith unigol, ac ar draws ieithoedd yn ogystal.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o fod ar gael i'r cyhoedd, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma: ☐